

---

# BWLETIN POLISI CYTŪN

## HYDREF 2018

---



### DYFODOL LLWYDDIANNUS I ADDYSG YNG NGHYMRU?

Mae cyhoeddi drafft cyntaf y cwricwlwm newydd yng ngwanwyn 2019 agosáu, ac mae Cytûn yn parhau i fod ynghanol y trafodaethau ar ran yr eglwysi.



Yng nghyfarfod Grŵp Strategol Rhanddeiliaid y Cwricwlwm ym mis Medi, fe gafwyd diweddariad cadarnhaol iawn ar sut mae pethau'n siapio gan yr Athro Graham Donaldson (llun ar y chwith). Ef yw awdur yr adroddiad argymhellodd gwricwlwm newydd, [Dyfodol Llwyddiannus](#). Roedd yn llawenhau yn y ffordd mae athrawon yn yr Ysgolion Arloesi wedi cydio ym mhosibiliadau datblygu cwricwlwm newydd. Bu hefyd yn cyflwyno'r syniadau yn ei adolygiad ar waith Estyn, [Arolygiaeth Dysgu](#), sy'n pwysleisio y dylai Estyn weithio i gael ei weld yn gorff sy'n cefnogi athrawon ac ysgolion, yn hytrach na dim ond eu monitro a'u harolygu.

Un wedd ar waith Estyn a werthfawrogir yw eu hadroddiadau pynciol. Ym Mehefin fe gyhoeddwyd [Addysg grefyddol yng nghyfnod allweddol 2 a chyfnod allweddol 3](#), sy'n rhoi darlun o Addysg Grefyddol i blant 7-14 mlwydd oed. Mae'r adroddiad yn argymhell sicrhau fod y plant mwyaf galluog yn cael eu herio'n fwy gan y pwnc, ac yn gofyn am well pontio rhwng yr ysgolion cynradd a'r ysgolion uwchradd wrth ei ddysgu. Nid oes syndod, efallai, i'r adroddiad nodi fod cyrhaeddiad a bodlonrwydd disgyblion gyda'r pwnc yn lleihau wrth iddynt heneiddio, ond mae Atodiad 3 yn cynnwys nifer o astudiaethau achos calonogol yn dangos beth sy'n bosibl o ddysgu Addysg Grefyddol mewn ffyrdd dychmygus a gafaelgar.

Mae adroddiad Estyn yn gwrthgyferbynnu â chasgliad y Comisiwn Cenedlaethol ar Addysg Grefyddol, [Religion and worldviews: the way forward](#), sy'n dod i'r casgliad, *Religious Education (RE) in too many schools is not good enough to prepare pupils adequately for the religious and belief diversity they will encounter, nor to support them to engage deeply with the questions raised by the study of worldviews* (para 3, tud 3). Er bod yr adroddiad yn sôn am Addysg Grefyddol ym Mhrydain, o Loegr y daw'r holl dystiolaeth ac ar gyfer ysgolion, awdurdodau lleol ac Adran Addysg Lloegr y mae'r argymhellion. Mae rhai o'r argymhellion hynny yn rhai sy'n cydweddu â chwricwlwm newydd Cymru.

Clywsom yng Nghymru ei bod yn fwriad gan y Llywodraeth ddeddfu ar gyfer y cwricwlwm newydd trwy Fil Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) yn 2020-21. Fe fydd y Bil yn cynnwys deddfu ar gyfer statws Addysg Grefyddol. Hyd yma, fe fu Llywodraeth Cymru yn dweud na fyddai angen deddfu o'r newydd, gan fod Addysg Grefyddol eisoes yn bwnc statudol, ond deallwn ei bod yn fwriad bellach cynnwys cyfeiriad penodol at AG, Addysg Perthynas a Rhywioldeb a'r Gymraeg fel pwnc yn y mesur hwn. Bydd Cytûn yn cadw golwg barcud ar y cynigion hyn.

Clywodd y Grŵp Rhanddeiliaid hefyd gan Huw Foster-Evans (llun ar y dde), Prif Weithredwr yr [Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol](#), yn esbonio ei waith yntau gydag arweinyddion o bob math yn y sector addysg.



# BWRDD GWAITH IEUENCTID I GYMRU

Yn dilyn [ymchwiliad i waith ieuenctid gan Bwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg y Cynulliad](#), y bu i nifer o eglwysi ymwneud ag ef, fe sefydlodd Llywodraeth Cymru Fwrdd Gwaith Ieuenctid Dros dro dan gadeiryddiaeth Keith Towler, cyn Gomisiynydd Plant Cymru.

Mewn datganiad wedi'i anelu at bobl ifainc yng Nghymru, meddai Keith Towler, "Byddaf yn lansio arolwg ieuenctid Cymru gyfan ar gyflwr gwaith ieuenctid yng Nghymru. Bydd hyn yn gyfle cynnar i chi ddisgrifio beth sy'n bwysig i chi a beth rydych am ei gael gan waith ieuenctid yng Nghymru. Nod yr arolwg yw cael pobl ifanc yng Nghymru i siarad am waith ieuenctid a bydd y syniadau a'r meddyliau y byddwch chi'n eu darparu yn helpu'r Bwrdd wrth iddo ddechrau ar ei waith. Bydd yr arolwg yn gyfle pwysig i bobl ifanc lywio'r ffordd y mae gwaith ieuenctid yn cael ei ddarparu yn y dyfodol.

Ynghyd â'r neges hon rwyf hefyd wedi ysgrifennu at y rhai sy'n gweithio yn y sector gwaith ieuenctid. Byddaf yn cadw mewn cysylltiad â phobl ifanc wrth i ni weithio ar hyn i gyd. Byddaf yn datblygu cynllun cyfathrebu gan ddefnyddio'r cyfryngau cymdeithasol a fformatau eraill er mwyn i chi gael clywed am y cynnydd a wnawn, a chofiwch gysylltu â mi os oes gennych chi unrhyw gwestiynau.

Dyma ein cyfle i ddiffinio dyfodol ar gyfer gwaith ieuenctid fel y gallwch chi a holl bobl ifanc Cymru, ble bynnag maent yn byw ac o dan ba bynnag amgylchiadau, gyflawni'ch potensial fel unigolion gyda chefnogaeth sector gwaith ieuenctid bywiog."

Mae Cytûn yn gobeithio y bydd pobl ifainc a gweithwyr ieuenctid yn y sector eglwysig yng Nghymru yn awyddus i leisio'u barn drwy'r arolygon hyn. Gellir cael rhagor o fanylion gan Keith Towler trwy gysylltu ag ef drwy [bwrrddgwaithieuenctid@llyw.cymru](mailto:bwrrddgwaithieuenctid@llyw.cymru)

## YSTYRIED DIWYGIO CYFRAITH YSGARU

Mae'r Ysgrifennydd Gwladol dros Gyfiawnder yn Llywodraeth y DU wedi cyhoeddi ymgynghoriad am gyflwyno ysgaru "heb fai" yng Nghymru a Lloegr: [Reducing family conflict: Reform of the legal requirements for divorce](#). Daeth y mater i amlygrwydd pan gafwyd dyfarniad y Goruchaf Lys yn achos *Owens v Owens* [2018] UKSC 41, lle'r oedd y nail wedi herio cais y llall am ysgariad ar sail ymddygiad afresymol. Fe wrthododd y Llys apêl Mrs Tini Owens yn erbyn dyfarniad y llysoedd is na ellid caniatáu ysgariad iddi gan fod ei gŵr yn gwrthwynebu hynny – ac roedd hi'n amlwg fod y llys yn anfoddog iawn.

Ar hyn o bryd, fe orfodir cyplau sy'n ysgaru i feio'i gilydd am fethiant y briodas ar sail "ymddygiad afresymol", godineb neu encilio o'r briodas, neu profi iddynt gael eu gwahanu ers o leiaf dwy flynedd – hyd yn oed os yw'r gwahanu wedi'i gytuno o'r ddeutu. Os yw'r naill yn gwrthwynebu'r ysgaru, a'r llall yn methu â phrofi "bai", yna mae'n rhaid aros pum mlynedd er mwyn cael ysgariad.

Ymhlith y cynigion yn yr ymgynghoriad mae:

- cadw methiant anadferadwy'r briodas yn unig sail ar gyfer ysgaru;
- dileu'r angen i gyflwyno tystiolaeth o ymddygiad y cymar arall neu gyfnod o fyw ar wahân;
- cyflwyno proses newydd i un cymar, neu efallai'r ddau, hysbysu'r llys o'r bwriad i ysgaru; a
- dileu gallu'r cymar arall i herio'r cais am ysgariad.

Mae'r ymgynghoriad hefyd yn ceisio barn am y cyfnod lleiaf ar gyfer y broses rhwng y datganiad dros dro o'r ysgariad (decree nisi) a'r datganiad ysgaru terfynol (decree absolute). Byddai hyn yn caniatáu amser i gyplau ystyried y penderfyniad i ysgaru a chytuno am drefniadau ar gyfer y dyfodol pan fo ysgaru yn anochel.

Bydd yr ymgynghoriad yn cau ar **10 Rhagfyr**. Gellir ymateb arlein [yma](#)

## Pecynnau cinio heb wastraff ar gyfer eich plant

Mae cling film, ffoil ac eitemau a becynnir yn unigol (iogyr, creision, siocled, diodydd mewn cartonau) oll yn ychwanegu at y gwastraff plastig sy'n cael ei greu. Felly mae A Rocha UK, un o aelodau Cytûn, yn cynnig y cyngor yma ar sut i leihau'r gwastraff:

- Rhowch eich brechdannaau mewn papur neu focs y gellir ei ddefnyddio eto
- Prynwch becyn mawr o fisgedi, creision, ayb a rhoi llond dwrn mewn bocs y gellir ei ddefnyddio eto
- Defnyddiwch gyllyll, llwyau a photeli dŵr y gellir eu golchi a'u defnyddio eto
- Bwytwch ffrwyth (daw banana neu afal yn ei becyn ei hun!) a chompostio'r gweddillion
- Rhowch dim ond beth mae'ch plentyn yn ei fwynhau ac yn gallu'i fwyta.

## UNIGRWYDD A CHYFEILLGARWCH



advice and support for older age  
**Independent  
Age**

Mae [Independent Age](#), yr elusen i bobl hŷn sy'n cynnig gwasanaethau cyfeillgarwch rhad am ddim i helpu i leddfu unigedd, wedi lansio eu gwasanaeth cyfeillio yn Ne Cymru. "Rydyn ni eisoes yn gweld manteision

mesuradwy cyfeillio mewn sawl rhan o wledydd Prydain, ac felly rydyn ni'n edrych ymlaen yn fawr at ddod â gwasanaeth tebyg i Gaerdydd a Chasnewydd". Mae Gavin Stewart, y Swyddog Llesiant llawn amser sy'n dechrau'r gwasanaeth yng Nghaerdydd a Chasnewydd cyn ehangu ar draws De Cymru, yn chwilio am wirfoddolwyr a fyddai'n hoffi'r cyfle i godi calon person hŷn gyda phaned o de a sgwrs.

Rydyn ni'n darparu'r hyfforddiant sydd ei angen arnoch, yn cynnal gwiriadau gwasanaeth datgelu a gwahardd ac yn talu costau teithio. Os hoffech ragor o wybodaeth am sut i ddod yn rhan, ewch i wefan Independent Age i ganfod pa gyfleoedd sydd yn eich hardal chi. Fel arall, gallwch ffonio Gavin drwy: 0207 241 8544 neu 07522 240 139 neu anfonwch e-bost at [gavin.stewart@independentage.org](mailto:gavin.stewart@independentage.org).

Yn y cyfamser, bydd Gweinidog Gofal Cymdeithasol a Phlant Llywodraeth Cymru, Huw Irranca-Davies AC, yn lansio ymgynghoriad am unigrwydd ac unigedd yng Nghymru mewn [noswaith yn y Senedd ar Hydref 23](#), a drefnir gan [Spice Time Credits](#) a'r [Campaign to End Loneliness](#), a bydd Cytûn yno.

## GWEITHGAREDDAU CREADIGOL MEWN ADEILADAU CREFYDDOL

Fe wyddom fod clwbiau gwau, gwersi arlunio a phob math o weithgarwch creadigol yn digwydd mewn capeli ac eglwysi ac adeiladau crefyddol eraill ar hyd a lled Cymru.



Mae [Celfyddydau Gwirfoddol Cymru](#) yn elusen sy'n hyrwyddo cyfranogiad mewn gweithgareddau diwylliannol creadigol. Maent yn ymchwilio ehangder ac amrywiaeth y gweithgareddau creadigol anffurfiol, bob dydd sy'n digwydd ledled Cymru - a gwyddom fod llawer o weithgarwch yn digwydd mewn adeiladau crefyddol fel neuaddau eglwys.

Byddent yn ddiolchgar iawn pe gallech gwblhau arolwg byr yn: <https://www.surveymonkey.co.uk/r/S2KS276>, fel y gallant dynnu sylw at y gweithgareddau creadigol sy'n

bodoli o fewn cymunedau ledled Cymru. Mae gan yr holiadur gefnogaeth Cytûn, a byddem yn awyddus i gymaint o eglwysi ag yn bosibl achub ar y cyfle i'w lenwi.

## Statws newydd ar gyfer dinasyddion Ewropeaidd sy'n byw yn y DU

Cafodd eglwysi, ynghyd â llawer o grwpiau cymunedol eraill, eu gwahodd i seminar yn yr Hen Lyfrgell yng Nghaerdydd ar Fedi 21 ynghylch cynllun *Settled Status* Llywodraeth y DU ar gyfer dinasyddion yr UE sy'n byw yma. Trwy gyd-ddigwyddiad, dyma oedd diwrnod cyfarfod anffurfiol y Cyngor Ewropeaidd yn Salzburg, a'r bore wedyn fe gadarnhaodd [Theresa May](#) y bydd y cynllun yn cael ei weithredu hyd yn oed os na cheir cytundeb cynhwysfawr gyda'r Undeb Ewropeaidd.

Bydd y cynllun ar agor i unrhyw ddinesydd o'r UE ac aelodau eu teulu agos sy'n cyrraedd cyn 31ain Rhagfyr 2020, ac aelodau'r teulu agos yn y dyfodol. Nid oes angen i ddinasyddion yr Iwerddon ymgeisio, ond fe allant wneud os ydynt yn dymuno. Bydd y dinasyddion UE hynny fu'n preswylïo'n barhaol yn y DU am 5 mlynedd erbyn iddynt ymgeisio yn derbyn y statws newydd. Mae preswylïo'n barhaol yn golygu dim mwy nag un absenoldeb o fwy na 6 mis o fewn unrhyw 12 mis, gydag eithriadau (e.e. geni plentyn, salwch, gwasanaeth milwrol). Bydd dinasyddion yr UE sy'n preswylïo yn y DU erbyn 31ain Rhagfyr 2020 ond am lai na phum mlynedd yn derbyn *pre settled status*. Unwaith iddyn nhw gyrraedd pum mlynedd o breswylïo yn y DU gallant nweud cais rhad ac am ddim ar gyfer y statws llawn.

Bydd y broses ymgeisio yn syml ac yn hawdd ei ddefnyddio, arlein neu drwy app ffôn Android (nid yw'n gwbl gydnaws â'r iPhone). Bydd yna ganolfan cyswllt newydd wedi'i staffio gan weithwyr achos (nid derbynyddion galwadau yn unig). Bydd cefnogaeth ddigidol ar gael i'r sawl sydd ei angen. Mewn llawer achos, dim ond prawf hunaniaeth (pasbort/cerdyn adnabod, a ddilysir drwy'r app) a rhif Yswiriant Gwladol fydd ei angen; bydd y Swyddfa Gartref yn defnyddio'r rhif YG i weld trwy gofnodion Cyllid a thollau EM a'r Adran Waith a Phensiynau am faint y bu'r unigolyn yn preswylïo yn y DU. Derbynnir tystiolaeth o fath arall hefyd. Os nad yw'r dystiolaeth ar gael, gellir dyfarnu *pre settled status* ac yna cadarnhau'r statws llawn yn rhad ac am ddim ar ôl 5 mlynedd.

£65 fydd y tâl, £32.50 ar gyfer y sawl sydd dan 16 (di-dâl i blant y gofalir amdanynt gan awdurdodau lleol). Gellir cyfnewid cerdyn preswylïo parhaol am y statws newydd yn ddi-dâl. Yr unig reswm i wrthod cais gan ddinesydd o'r UE sy'n breswyl yn y DU fydd troseddu difrifol, gan ddefnyddio diffiniad cyfraith yr UE o fod yn "fygythiad go iawn, cyfredol a difrifol i fuddiannau cymdeithas". Ymdrinnir ag unrhyw gamgymeriadau neu fylchau yn y cais cyn ei ddyfarnu.

O'i dderbyn, yr unig ffordd i golli *settled status* fydd gadael y DU am fwy na 5 mlynedd, neu troseddu difrifol. Ar ôl 31ain Rhagfyr 2020 bydd y diffiniad o 'droseddu difrifol' yn newid i drosedd all arwain at ddedfryd o 12 mis neu fwy yn y carchar. Os yw rhywun yn colli'r statws, yna fe fydd pobl a dderbyniodd eu statws drwy'r unigolyn hwnnw (e.e. dibynyddion neu aelodau teulu a ddaw o wlad y tu allan i'r UE) yn colli eu statws hefyd.


Bydd y cynllun ar gael yn gyhoeddus ym Mawrth 2019. Mae diweddariadau cyson am y cynllun ar wefan y Swyddfa Gartref: <https://www.gov.uk/settled-status-eu-citizens-families> Ceir mwy o fanylion trylwyr yn yr Canllawiau ar gyfer Gweithwyr Achos: <https://www.gov.uk/government/publications/eu-settlement-scheme-caseworker-guidance> Gall dinasyddion yr UE ac eraill sydd â diddordeb gofrestru ar gyfer diweddariadau ebost yma: <https://gov.smartwebportal.co.uk/homeoffice/public/webform.asp?id=67&id2=627DF7> Oherwydd yr holl newidiadau, nid yw dogfennau papur a PDF ar gael eto.

Bydd gwybodaeth allweddol yn cael ei throsi i 23 iaith swyddogol yr UE ac i'r Gymraeg, ond nid y ffurflen gais, y canllawiau manwl na'r app ffôn. Am y rheswm hwn ymysg eraill, mae'r Swyddfa Gartref yn awyddus iawn i gynnwys grwpiau ffydd a chymunedol wrth hybu'r cynllun, trwy roi gwybodaeth i ddinasyddion yr UE a'u cyfeirio i'r wefan. Maen nhw hefyd yn chwilio am grwpiau ffydd yn barod i helpu ymgeiswyr i wneud eu ceisiadau. **Cyfeiriwyd yn benodol at eglwysi** yn y cyd-destun hwn, gan fod y Swyddfa Gartref yn deall y rôl bwysig sydd ganddynt gyda helpu dinasyddion tramor yn y DU, yn enwedig y rhai sydd yn fregus mewn unrhyw ffordd.

Bydd pecynnau cymorth ar gael i gyflogwyr, awdurdodau lleol a grwpiau cymunedol gyda fideos, taflenni, posteri, ayb. Gall y cynnwys gael ei gopïo i'ch deunydd eich hun. Mae pecyn cyflogwyr ar gael eisoes: <https://www.gov.uk/government/publications/eu-settlement-scheme-employer-toolkit>, a bydd y gweddill yn dilyn.


Ym mis Hydref, bydd y Swyddfa Gartref yn cynnull gyda Chyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (WCVA) cyfarfod bord gron ar gyfer sefydliadau'r 3ydd sector sydd â diddordeb mewn cynorthwyo. Bydd Cytûn yno a byddwn yn cylchredeg y wybodaeth pan fydd ar gael. Fe fyddem yn falch iawn o glywed gan unrhyw eglwysi fyddai'n barod i helpu yn y cynllun – cysyllter â [gethin@cytun.cymru](mailto:gethin@cytun.cymru) yn y lle cyntaf.

**Bugeilio Cefn Gwlad Cymru**



Pa gymorth ymarferol all yr enwadau crefyddol ei roi i amaethwyr?

**CYNHADLEDD GYHOEDDUS**  
**Coleg Meirion Dwyfor, Dolgellau**  
**Nos Wener, 12 Hydref 6.30**  
 Cadeirydd: Malcolm Thomas  
 (Cadeirydd RABI Prydain)  
 Panel:  
 Aled Jones (NFU) Alun Elidyr (FUW)  
 Parchg Carwyn Siddall  
 Parchg Ganon Eileen Davies  
**Croeso cynnes iawn i bawb**

 Noddir gan UNDEB YR ANNIBYNWYR CYMRAEG

## BREXIT A'N TIR

Mae Llywodraeth Cymru ar hyn o bryd yn ymgynghori am sut i roi cefnogaeth i ffermwyr trwy arian cyhoeddus yn dilyn Brexit. Maent yn cynnig dileu'r taliadau sengl (sy'n talu ffermwyr yn ôl faint o dir y maent yn ei ffermio) yn raddol, a gosod yn eu lle dau gynllun newydd:

- Y Cynllun Cadernid Economaidd, fydd yn helpu ffermwyr i farchnata, gwella cynhyrchiant, arallgyfeirio, rheoli risg a chyfnewid gwybodaeth a sgiliau; a'r
- Cynllun Nwyddau Cyhoeddus, fydd yn talu ffermwyr am eu gwaith sy'n helpu'r amgylchedd trwy gryfhau cynefinoedd, atal llifogydd, gwella ansawdd aer a dŵr a lliniaru effaith newid yn yr hinsawdd.

Mae'r Cynllun Nwyddau Cyhoeddus yn debyg i gynllun ar gyfer Lloegr a gyhoeddwyd gan Lywodraeth y DU yn gynharach eleni, a bydd y pwerau i weithredu'r cynlluniau newydd yng

Nghymru a Lloegr yn cael ei roi gan y [Bil Amaeth](#) a gyflwynwyd i San Steffan ar Fedi 12. Disgwylir y ceir deddfwriaeth benodol i Gymru yn nes ymlaen.

Mae Gweithgor Cymru ac Ewrop Cytûn yn gobeithio ymateb i'r cynigion cyn Hydref 30, a hoffem glywed gan ffermwyr ac eraill sy'n rhan o'r economi wledig er mwyn ymateb. Cysyllter â [gethin@cytun.cymru](mailto:gethin@cytun.cymru) os oes gennych sylwadau i'w cynnwys.

## **TRÊN HEDDWCH**

Bydd Trên Heddwch, a gefnogir gan arweinyddion eglwysig gan gynnwys Archesgob Cymru ac Esgob Llanelwy o fewn yr Eglwys yng Nghymru, yn rhedeg ar Hydref 24, Dydd y Cenhedloedd Unedig. Bydd yn pwysu ar Lywodraeth y Deyrnas Unedig i arwyddo Cytundeb y Cenhedloedd Unedig ar Wahardd Arfau Niwclear.

Gwahoddir pobl leol yng Ngogledd Cymru a'r Gororau i arwyddo datganiad a'i roi i drefnydd lleol, a fydd yn eu trosglwyddo i'r trên. Byddant yn codi datganiadau yn Wrecsam, yr Amwythig a gorsafoedd eraill ar hyd y lein rhwng Caergybi a Chasnewydd. Cesglir datganiadau hefyd o dde Cymru i fynd i Dŷ'r Cyffredin yn Llundain o orsaf Casnewydd. Gellir cael manylion pellach gan y Gwir Barchg John Davies (cyn Esgob yr Amwythig) trwy [davies.johnd@btinternet.com](mailto:davies.johnd@btinternet.com)

**Grŵp Trawsbleidiol ar Ffydd: *Islam ac eithafiaeth***

**Siaradwr Gwadd: Saleem Kidwai, Ysgrifennydd Cyffredinol, Cyngor Moslemaidd Cymru**

**Dydd Mercher 7 Tachwedd 2018, 12.00 – 13.15**

**Ystafell y Cyfryngau, Y Senedd**

*I gadw sedd, anfonwch neges e-bost at Jim Stewart at [jimstewartwales@gmail.com](mailto:jimstewartwales@gmail.com)*

**Hysbysebair ar ran Darren Millar AC, Cadeirydd y Grŵp Trawsbleidiol ar Ffydd**

## CAWL A SANNAU AR STRYDOEDD BAE COLWYN A LLANDUDNO



Mae llawer o grwpiau lleol Cytûn yn awyddus i gefnogi'r sawl yn eu cymunedau sy'n cael eu hunain ar y strydoedd. Yn ddiweddar fe gynhaliodd Cytûn Bae Colwyn a

Llandrillo-yn-Rhos ffair ben bwrdd a chodi cyfanswm o £500 i gefnogi tîm Soup n Sox, sy'n mynd i strydoedd Bae Colwyn a Llandudno bob wythnos i gysylltu â'r bobl yno. Cyflwynwyd y sic gan Drysorydd y grŵp Cytûn lleol i Scott Jenkinson sy'n cyfarwyddo'r cynllun.



## BANCAU YN CAU AC YN AMDDIFADU CYMDOGAETH GYFAN



Banc hanesyddol Lloyds yn Llanymddyfri a gaeodd yn 2017.  
Llun: Eleri Owen Edwards

Yng nghyfarfod Pwyllgor Eglwys a Chyfrifoldeb Cymdeithasol Undeb Bedyddwyr Cymru yn ddiweddar cafwyd trafodaeth mewn perthynas â niferoedd canghennau banciau sydd yn cau ar hyd a lled y wlad ac yn gadael rhai ardaloedd heb yr un fanc. Er bod Swyddfa'r Post yn cynnig gwasanaeth, nid ydynt yn cynnig yr ystod llawn o wasanaethau bancio. Mae modd bancio ar lein nid yw pawb yn medru gwneud hyn oherwydd diffyg gallu neu'r adnoddau. Ar ben hyn nid oes modd bancio ar lein yn y Gymraeg.

Gofynnodd y cyfarfod i Cytûn gyd-lynu llythyr i'r prif fanciau yn mynegi consyrn ar ran yr enwadau. Bydd y Swyddog Polisi yn cysylltu ag aelodau Cytûn i'r perwyl hwn yn fuan. Yn y cyfamser, bydd yn croesawu gwybodaeth a sylwadau pellach trwy'r cyfeiriad isod.



## CYSYLLTU Â SWYDDOG POLISI CYTÛN neu tansgrifio i'r Bwletin drwy ebost

Parch./Revd Gethin Rhys - Swyddog Polisi/Policy Officer  
Cytûn - Eglwysi Ynghyd yng Nghymru/Churches Together in Wales

58 Richmond Road, Caerdydd/Cardiff, CF24 3AT  
Tel: 029 2046 4378 Mudol/mobile: 07889 858062

E-bost/E-mail: [gethin@cytun.cymru](mailto:gethin@cytun.cymru)  [@CytunNew](https://twitter.com/CytunNew)

*Hapus i gyfathrebu yn Gymraeg ac yn Saesneg. Happy to communicate in Welsh and English*

Mae Cytûn yn gwmni cofrestredig yng Nghymru a Lloegr | Rhif: 05853982 | Enw cofrestredig: "Cytûn: Eglwysi Ynghyd yng Nghymru/Churches Together in Wales Limited" |

Mae Cytûn yn elusen gofrestrdig | Rhif: 1117071 |

Dyddiad cyhoeddi: 1 Hydref 2018. Cyhoeddir y Bwletin nesaf tua diwedd Tachwedd 2018.